



10.0 Marchnata a Chyfathrebu

Cylchlythyrau

Trosolwg

1. Cyflwyniad
2. Arddull ysgrifennu
3. Gwybodaeth Bellach

Cyflwyniad

A oes angen cylchlythyr arnoch?

Mae angen i chi ystyried nifer o gwestiynau cyn penderfynu llunio cylchlythyr.

Dylai'r ateb i'r cwestiynau hyn bennu a chyfiawnhau amlder a phwrpas eich cylchlythyr. Er enghraifft, efallai mai eich nod yw ehangu eich aelodaeth, hyrwyddo a marchnata eich cynllun trafndiaeth gymunedol neu roi gwybod i fudiadau am faterion anabledd ac ati.



Llun: Teulu yn cael y newyddion trwy wahanol gyfryngau

- Beth yw'r pwrpas a'r nod? Pa wybodaeth sydd angen i chi ei chyfleu i'ch mudiad neu amdano?
- Sut bydd y gweithgaredd hwn yn cyfrannu at eich amcanion CAMPUS?
- Beth hoffech chi i'ch cynulleidfa ei wneud ar ôl darllen y cylchlythyr? Beth yw'r alwad i weithredu?
- Sut y byddwch yn mesur llwyddiant eich cylchlythyr?
- Pa mor rheolaidd y byddwch yn ei anfon?
- A fyddwch yn paratoi ac yn dosbarthu'r cylchlythyr yn electronig?

- Oes gennych chi gynulleidfa ddigon mawr i gyfiawnhau'r costau argraffu?
- A oes digon o wybodaeth ddiddorol i'w chyfleu i'r darllenydd?
- Sut y bydd hyn yn cyd-fynd â chyfathrebiadau eraill y mudiad?

Pwy yw eich cynulleidfa?

Mae dau brif faes o wybodaeth sy'n gwneud cylchlythyr da.

Diddordeb cyffredin

Mae cylchlythyrau'n gweithio orau pan fyddant yn gweithio i un diben syml sy'n seiliedig ar ddiddordeb cyffredin a rennir rhwng y darllenydd a'r cylchlythyr.

Newyddion cyfredol a gwybodaeth amserol

Mae'r cylchlythyrau gorau'n cyfleu elfen o frys. Mae eu cynnwys yn ymwneud â'r wythnosau diwethaf neu'r wythnosau nesaf. Bydd pa mor gyfredol yw eich gwybodaeth yn aml yn llywio pa mor aml y bydd angen i chi gynhyrchu eich cylchlythyrau.

Sut byddwch chi'n fformatio eich cylchlythyr?

Dylech enwebu golygydd a fydd yn gyfrifol am arddull a chynnwys, dyddiadau cau cyflwyno, themâu ac ati.

Mae'n werth meddwl pa fath o ffurfdeip a maint rydych chi am ei ddefnyddio. Dylai fod modd adnabod pob cylchlythyr yn ôl ei osodiad, ei deipograffeg a sut mae'n defnyddio graffeg. Dylid rhoi sylw i'ch penawdau a'ch is-benawdau ac i'r bwlch rhwng llinellau ac ymylon – dyma'r math o bethau sy'n gwneud gwybodaeth wedi'i theipio yn haws neu'n anoddach i'w darllen.

Dylid defnyddio lluniau i ddod â'ch cylchlythyr yn fyw. Efallai y bydd pobl yn uniaethu mwy â'r hyn yr ydych yn ei ddweud os gallwch ei ddangos gyda llun. Os ydych yn ei anfon drwy e-bost, gallwch hyd yn oed fewnosod dolenni i fideos, neu fewnosod fideos yn y testun. Bydd y pethau hyn yn helpu i rannu eich paragraffau a gwneud eich neges yn haws ei hystyried.

Wrth anfon drwy e-bost, defnyddiwch hyperddolenni i gyfeirio eich cynulleidfa at dudalen we benodol i gael rhagor o wybodaeth, i lenwi ffurflen, i roi arian, ac ati. Mae hwn yn gyfle i helpu eich cynulleidfa i gwblhau'r alwad i weithredu ddymunol.

Sut byddwch chi'n anfon eich cylchlythyr?

Unwaith y byddwch wedi penderfynu beth sydd angen i chi ei gyfleu, mae angen i chi benderfynu sut y byddwch yn cyfleu'r wybodaeth hon – drwy e-bost neu brint?

Gallwch hefyd ystyried radio lleol neu golofn mewn papur newydd neu gylchlythyr sy'n bodoli eisoes.

Os byddwch yn penderfynu e-bostio eich cylchlythyr, a oes gennych y feddalwedd briodol i reoli'r broses anfon yn effeithiol ac i werthuso'r canlyniadau? Er enghraifft, Mailchimp neu Charity Digital Mail. A oes gan eich tîm y sgiliau angenrheidiol i ddefnyddio'r feddalwedd hon?

Os byddwch yn dewis print i gyfathrebu â'ch darllenwyr, a fydd hyn yn cael ei gynhyrchu'n fewnol neu ei roi ar gontract i gwmnïau argraffu allanol? Bydd hyn yn dibynnu i raddau helaeth ar eich cyllideb.

Os byddwch yn argraffu'n fewnol, gall costau gynnwys amser i gasglu, ysgrifennu a chynhyrchu, unrhyw hyfforddiant sydd ei angen, meddalwedd Desk Top Publishing (DTP), papur ac argraffu. Gall costau eraill gynnwys plygu, rhoi pethau mewn amlenni, labelu a phostio. Bydd eich costau hefyd yn cael eu heffeithio gan ba mor aml y byddwch yn cynhyrchu eich cylchlythyr.

Sut y byddwch yn gwerthuso llwyddiant eich cylchlythyr?

Os ydych yn anfon y cylchlythyr yn electronig, defnyddiwch eich meddalwedd e-gylchlythyr i fesur:

- Faint o'r cylchlythyrau a gyrhaeddodd eu cyrchfan (**blwch derbyn eich cynulleidfa**) o'u cymharu â'r rhai a oedd yn bownsio'n ôl? Defnyddiwch y canlyniadau hyn i lanhau eich cronfa ddata drwy ei diweddarau
- Faint o'r cylchlythyrau a agorwyd gan y derbynnydd? Bydd rhywfaint o feddalwedd yn darparu gwybodaeth am ba mor hir y treuliodd y derbynnydd yn darllen y cylchlythyr (**am ba hyd y cafodd ei gadw ar agor**)
- Pa mor gyflym y cafodd yr e-bost ei ddileu?
- Faint o dderbynnyddion a gliciodd ar ddolenni neu a wylodd y fideos?

Os ydych yn argraffu eich cylchlythyr, gallwch hefyd fesur:

- Faint o dderbynnyddion a gliciodd ar ddolenni neu a wylodd y fideos? (**edrychwch ar ddadansoddiadau eich gwefan i weld o ble y cafodd ymwelwyr eu hatgyfeirio**)

Yn y ddau achos, cofiwch eich **amcanion CAMPUS** a gwnewch yn siŵr eich bod yn mesur:

- Faint o dderbynyddion a berfformiodd yr alwad i weithredu ddymunol? E.e. Os mai eich galwad i weithredu oedd cynyddu nifer y bobl sy'n eich dilyn ar y cyfryngau cymdeithasol, dylech fesur y cynnydd yn syth ar ôl anfon y cylchlythyr, ac am ryw wythnos ar ôl hynny

Arddull ysgrifennu

Yn gyffredinol, mae gan gylchlythyrau oes fer a dim ond am gyfnodau byr o amser mae pobl yn eu darllen. Mae'n debyg bod y cylchlythyr yn cystadlu â swyddfa swnllyd neu fywyd cartref a phethau sy'n tynnu sylw'n barhaus; felly nid erthyglau geiriau hir sy'n llawn jargon yw'r ffordd gyflymaf o gyfleu negeseuon. Dylai ysgrifennu cylchlythyrau fod yn anffurfiol, yn llawn gwybodaeth ac yn syml.

Dylai adlewyrchu'r iaith lafar orau a mwyaf naturiol.

- Dylech ei gadw'n fyr ac yn syml
- Byddwch yn benodol
- Defnyddiwch restrau a phwyntiau bwled
- Defnyddiwch iaith gyfarwydd
- Peidiwch â defnyddio geiriau diangen

Beth yw newyddion?

Gall newyddion fod yn ddigwyddiadau, datblygiadau, penderfyniadau sy'n effeithio ar y darlennydd, canlyniadau cyfarfodydd, penderfyniadau polisi newydd, newidiadau yn strategaeth y llywodraeth, llwyddiannau cyllido neu gynnydd ymgyrchoedd.

Defnyddiwch benawdau sy'n ennyn diddordeb darllenwyr ac yn eu hannog i ddarllen ymlaen. Ceisiwch gael dyfyniadau gan bobl sy'n rhan o'r stori, er mwyn helpu i wneud yr erthygl yn fwy byw a chyfredol.



Os ydych yn ysgrifennu erthygl newyddion cofiwch fod angen i'r paragraff cyntaf gynnwys y 5 elfen ganlynol:

Pwy, Beth, Pam, Pryd a Ble.

Beth arall all gael ei gynnwys mewn cylchlythyr?

Colofnau rheolaidd, darnau sylwadau, cyfweliadau, holi ac ateb a dyddiaduron yw rhai o'r posibiladau.



Cofiwch

Mae lluniau yn rhan bwysig iawn o ddenu sylw'r darlennydd, creu fformat gweledol gwell, a gwerthu'r stori. Defnyddiwch gapsynau i fynd gyda'r llun fel bod pobl yn gwybod beth maen nhw'n edrych arno.

Os ydych yn anfon gohebiaeth electronig, dylech fewnosod fideos neu ddolenni i fideos sy'n dangos eich neges.

Yn bwysicaf oll, cofiwch eich amcanion CAMPUS – beth ydych chi am i'r darlennydd ei wneud? Meddyliwch am eich galwad i weithredu. Nodwch hyperddolenni i gyfeirio eich darlennydd i gael rhagor o wybodaeth (addysg / codi ymwybyddiaeth) neu i lenwi ffurflen neu roi arian (anogwch eich cynulleidfa i weithredu).

Cofiwch ei wneud yn ddiddorol:

Cadw'r cynnwys yn berthnasol

Defnyddiwch ef i ddweud wrth bobl am bethau y bydd ganddynt ddiddordeb ynddynt.

Denu sylw gyda'r llinell pwnc

Bydd llawer o bobl yn dewis a ydynt am ddarllen e-bost drwy edrych ar y llinell pwnc yn eu blwch derbyn. Gwnewch yn siŵr bod y llinell pwnc yn berthnasol i'r neges.

Mynd yn syth at y pwynt

Peidiwch â gwastraffu amser pobl gyda straeon hir - defnyddiwch iaith gryno, mynnwch eu sylw a'u hannog i glicio ar ddolen i'ch gwefan i gael rhagor o wybodaeth

Defnyddio iaith syml

Ysgrifennwch yn syml ac yn glir fel bod darllenwyr yn deall ar unwaith yr hyn rydych chi'n ei gynnig a'r budd iddynt nhw.

Peidio ag anfon cylchlythyr yn rhy aml

Dim ond pan fydd gennych ryw beth perthnasol a diddorol i'w ddweud y dylech anfon cylchlythyrau.

Safonau'r Gymraeg

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gwneud y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru. Mae hyn yn golygu na ddylid ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Er nad oes yn rhaid cyfieithu pob gweithgaredd yn ei union gyd-destun, dylid anelu at gydbwysedd cyfartal o ran sicrhau bod cynulleidfaoedd Cymraeg a Saesneg eu hiaith yn agored i weithgarwch.

Gwybodaeth Bellach

Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr (Saesneg yn unig)

Ffôn: 0845 3000 218

www.charitycommission.gov.uk

Gwybodaeth i fudiadau gwirfoddol a chymunedol (Saesneg yn unig)

VolResource

www.volresource.org.uk

Canllaw i Lunio Cylchlythyrau Elusennol (Saesneg yn unig)

Directory of Social Change

Ffôn: 08450 777 707

www.dsc.org.uk

Llunio e-gylchlythyrau elusennol effeithiol (Saesneg yn unig)

NCVO KnowHow

<https://knowhow.ncvo.org.uk/campaigns/communications/e-newsletters>



Cefnogi Trydydd
Sector **Cymru**

Third Sector
Support **Wales**

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cyngorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â <https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/>

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw un sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.